

## Rheoliad Gweithredu (UE) 2018/775 ar y rheolau ar gyfer nodi gwlad tarddiad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd

### Crynodeb o ymatebion rhanddeiliaid

11 Mai 2020

### Cyflwyniad

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn ar 22 Ionawr 2020 a daeth i ben ar 19 Chwefror 2020.

Diben yr ymgynghoriad oedd ceisio sylwadau gan y diwydiant, awdurdodau gorfodi, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ar y cynnig i ddrafftio deddfwriaeth ddomestig yn gorfodi Rheoliad Gweithredu (UE) 2018/775 ar y rheolau ar gyfer nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd yng Nghymru.

Gwahoddwyd rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad dros e-bost, ar y ffôn neu drwy'r post.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid hynny a ymatebodd ac isod ceir tabl o ymatebion yn nhrefn y grŵp a ymatebodd.

Dyma'r prif gynigion y gofynnwyd am sylwadau arnynt yn yr ymgynghoriad:

- Darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2018/775 mewn perthynas â'r rheolau ar gyfer nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd.
- **Peidio** â darparu ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2018/775 mewn perthynas â'r rheolau ar gyfer nodi gwlad neu fan tarddiad prif gynhwysyn bwyd.

Mae colofn olaf y tabl yn nodi ymatebion ystyriol yr ASB i sylwadau'r rhanddeiliaid.

Mae rhestr o'r rhanddeiliaid a ymatebodd ar gael ar ddiwedd y ddogfen.

# Crynodeb o'r prif sylwadau

## Grŵp

### Ymatebydd: Anne Foster

Sylw	Ymateb
Syniad gwych a byddai wir yn caniatáu i ddefnyddwyr gefnogi cynhyrchwyr Cymru a'r Deyrnas Unedig (DU) yn weithredol.	Mae'r ASB wedi nodi'r sylwadau hyn ac fe'u hystyriwyd yn rhan o'r ymgynghoriad.

## Camau i'w cymryd

- Mae'r ASB yng Nghymru wedi adolygu'r holl ymatebion, ac nid oedd yr un ohonynt yn gwrthwynebu drafftio deddfwriaeth ddomestig i orfodi rheoliad gweithredu (UE) 2018/775 yng Nghymru. Bydd yr ASB yng Nghymru yn bwrw ymlaen â drafftio deddfwriaeth ddomestig sy'n gorfodi Rheoliad Gweithredu (UE) 2018/775 yng Nghymru.

## Rhestr o ymatebwyr

1. Anne Foster